**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

2 Mai 2019

Annwyl Mick

Ysgrifennaf atoch ynghylch OS Ymadael â'r UE a osodwyd yn Senedd y DU, sef Rheoliadau Gorfodi'r Gyfraith a Diogelwch (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, er mwyn rhoi gwybod i chi pam fod Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad ôl-weithredol i'r OS hwn.

Daeth i'm sylw ar ôl i'r OS gael ei osod bod rheoliad 124 yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, sef darpariaeth yr ydym yn ystyried ei bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gan hynny, o dan y Cytundeb Rhynglywodraethol dylid bod wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer yr OS hwn. Mae fy swyddogion wedi trafod yr OS hwn gyda swyddogion cyfatebol yn y Swyddfa Gartref, ac maent wedi cadarnhau nad oedd Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru gan fod Llywodraeth y DU yn ystyried bod yr OS hwn yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl.

Roedd y ddarpariaeth dan sylw yn gwneud diwygiadau mân iawn i baragraff 12(1)(c) a (d) o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Ar hyn o bryd mae'r Ddeddf yn darparu y gellir ond rhoi trwydded ar gyfer sefydliad rhyw (sef lleoliadau adloniant rhywiol, sinemâu rhyw a siopau rhyw) i berson sy'n preswylio mewn gwladwriaeth AEE, neu i gorff corfforaethol a gorfforwyd mewn gwladwriaeth AEE. Bydd y fersiwn ddiwygiedig yn darparu y gellir ond rhoi trwydded i berson sy'n preswylio yn y DU neu mewn gwladwriaeth AEE, neu i gorff corfforaethol a gorfforwyd yn y DU neu mewn gwladwriaeth AEE. Mae hyn yn barhad o'r polisi presennol, sydd hefyd yn bolisi Llywodraeth Cymru. Mae'r diwygiad yn ffordd synhwyrol o barhau â'r trefniadau trwyddedu presennol ar ôl y diwrnod ymadael.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ysgrifennais at Nick Hurd MP, Minister of State for Police and the Fire Service, i roi cydsyniad ôl-weithredol Gweinidogion Cymru i'r OS hwn.

Mae trwyddedu darparu adloniant yn fater a gedwir yn ôl i Senedd y DU o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, oherwydd nad yw trwyddedu sefydliadau rhyw wedi ei lywodraethu gan Ddeddf Trwyddedu 2003, nid wyf o'r farn y byddai'r ddarpariaeth yn



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rheoliad 124 o fewn y mater hwn a gedwir yn ôl. O ganlyniad, rwy'n ystyried y dylid bod wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth hon.

Rydym yn cydnabod y gwnaed yr OSau Ymadael â'r UE o dan bwysau nas gwelwyd eu math o'r blaen, nad oedd yn caniatáu'r amser arferol i ystyried yr agweddau mwy goddrychol ar y setliad datganoli. Ar sail hynny, rwy'n fodlon bod Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithredu'n ddidwyll o dan y Cytundeb Rhynglywodraethol ac wedi cadw at ei dehongliad ei hun o'r setliad datganoli yn yr achos hwn. Rhoddwyd cydsyniad heb ragfarnu ein safbwynt o ran cymhwysedd deddfwriaethol, ac nid wyf yn bwriadu cymryd camau pellach ar hyn o bryd.

Gan fod yr OS hwn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn maes datganoledig, rwyf wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r gofyniad o dan Reol Sefydlog 30A (RhS30A). Fodd bynnag, gan fod y cywiriad yn un mân iawn, ni fyddaf yn gosod cynnig i drafod y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol. Mae croeso i unrhyw aelod osod cynnig i'w drafod o dan Reol Sefydlog 30A, pe bai unrhyw aelod yn teimlo bod y cywiriad hwn yn deilwng o fod yn destun trafodaeth.

Yn gywir



**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government